RCM LOGO

# Cwestiynau cyffredin am ddod yn fydwraig

## Sut allwch chi ddod yn fydwraig?

Fe allwch chi ddod yn fydwraig drwy ddilyn cwrs gradd mewn prifysgol, a'r cwrs hwnnw wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Bydd hyn yn arwain at gael cymhwyster mewn bydwreigiaeth ac at gofrestru gyda'r Cyngor. Mae gradd mewn bydwreigiaeth yn para isafswm o dair blynedd a 4600 o oriau wedi'u rhannu rhwng addysg academaidd ac addysg glinigol.

Mae nyrsys sydd wedi'u cofrestru ar hyn o bryd yn adran oedolion cofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn gallu dewis dilyn rhaglen addysg ychwanegol ac ennill ail gofrestriad proffesiynol fel bydwragedd. Mae'r llwybr ôl-raddedig byrrach hwn yn para isafswm o ddwy flynedd a 3600 o oriau wedi'u rhannu rhwng addysg academaidd ac addysg glinigol.

I ymgeiswyr sydd â gradd gyntaf eisoes, mae yna rhai cyrsiau MSc cyn cofrestru mewn bydwreigiaeth ar gael, sy'n rhoi opsiwn ôl-raddedig i ddod yn fydwraig ar lefel gradd meistr. Mae rhestr lawn o'r prifysgolion sydd wedi'u cymeradwyo i'w gweld ar wefan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Bydd gan bob prifysgol ei meini prawf penodol ar gyfer derbyn myfyrwyr, felly mae'n syniad da edrych i weld beth yw'r sefyllfa ym mhob sefydliad unigol.

Bydd angen gwneud cais drwy Wasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS).

Gall y broses dderbyn fod yn gystadleuol, a bydd gan nifer o fyfyrwyr fwy o gymwysterau a phrofiad na'r gofynion sylfaenol.

# Beth yw gwaith bydwraig?

Pan fydd pobl yn meddwl am fydwragedd, maen nhw'n aml yn meddwl am roi genedigaeth. Y darlun i nifer yw bod bydwraig yn helpu menyw wrth iddi roi genedigaeth i'w babi newydd-anedig. Mae hyn yn rhan hollbwysig o waith bydwragedd, ond mae'r swydd yn golygu cymaint mwy na hynny.

Y fydwraig gan amlaf yw cyswllt cyntaf a phrif gyswllt menyw yn ystod ei beichiogrwydd, drwy gydol yr esgor, ac yn y cyfnod ôl-enedigol cynnar. Mae bydwragedd yn gyfrifol am roi gofal ac am helpu

menywod i wneud dewisiadau doeth am eu gofal. Byddan nhw'n cynnal archwiliadau clinigol, yn rhoi addysg am iechyd ac addysg i rieni, ac yn gefn i fenywod a'u teuluoedd drwy gydol cyfnod yr enedigaeth er mwyn eu helpu nhw i addasu i fod yn rhieni. Bydd bydwragedd hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol eraill er mwyn ateb anghenion unigolion; er enghraifft, oedolion ifanc, menywod sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol, pobl anabl, a phobl o gefndiroedd ethnig amrywiol.

## Sut bydd bydwragedd yn gweithio?

Mae bydwragedd yn gweithio mewn lleoliadau gofal o bob math – yn rhai trefol, anghysbell a gwledig. Er enghraifft, maen nhw'n gweithio yn unedau mamolaeth yr ysbytai cyffredinol mawr, mewn unedau mamolaeth llai ar wahân, mewn ysbytai mamolaeth preifat, mewn practisau grŵp, mewn canolfannau geni, gyda meddygon teulu, ac yn y gymuned.

Bydd mwyafrif y bydwragedd yn gweithio i'r GIG, a hynny gyda bydwragedd eraill neu fel rhan o dîm bychan gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill fel obstetregwyr, neonatolegwyr, anaesthetegyddion, meddygon teulu, ymwelwyr iechyd a staff cymorth. Bydd bydwragedd yn rhoi gofal integredig sy'n canolbwyntio ar y fenyw, a hynny'n gofyn am weithio mewn shifftiau 7 diwrnod yr wythnos, gan gynnwys bod ar ddyletswydd yn ystod y dydd a'r nos. Mae gan nifer o fydwragedd rotâu ar alw, ac maen nhw'n gweithio mewn ysbytai yn ogystal ag mewn lleoliadau cymunedol fel canolfannau geni, unedau sy'n cael eu harwain gan fydwragedd, a chartrefi menywod.

## Gwneud cynnydd yn eich gyrfa

Ar ôl cofrestru, mae bydwragedd yn gallu gwneud cynnydd yn eu gyrfaoedd o fewn ymarfer clinigol. Er enghraifft, mae swyddi bydwragedd arbenigol ar gael, ym meysydd iechyd meddwl amenedigol neu iechyd y cyhoedd, addysg (er enghraifft fel darlithydd prifysgol) neu addysg ymarfer, ymchwil, gwaith ymchwil a chynorthwyo prosiectau ymchwil, arwain a rheoli, llywodraethu clinigol a swyddi goruchwylio. Gall bydwragedd ddewis dilyn cyrsiau addysg pellach ar ôl cofrestru, ac astudio ar lefel meistr neu ddoethuriaeth.

## Pa gyngor fyddai'r cyngor Coleg Brenhinol y Bydwragedd (RCM) yn ei roi i helpu i wneud fy nghais yn sefyll allan?

**Sgwrsiwch â'r brifysgol** rydych chi'n dymuno gwneud cais iddi. Mae'n syniad da mynd i unrhyw nosweithiau/diwrnodau agored a sgwrsio â'r tîm bydwreigiaeth academaidd, gan fod hynny'n gyfle gwych i gael gwybodaeth am y cwrs a'i ofynion penodol. Bydd yn gyfle hefyd i chi gwrdd â'r myfyrwyr presennol a dysgu sut beth yw'r cwrs go iawn. Holwch am strwythur y cwrs, am

eich lleoliadau clinigol tebygol, ac am y cymorth sydd ar gael. Cofiwch ei bod yr un mor bwysig eich bod chi'n dewis y cwrs iawn i chi ag ydyw i'r brifysgol ddewis yr ymgeiswyr cywir.

**Byddai’n dda cael rhywfaint o brofiad gwaith** o fewn uned famolaeth neu leoliad gofal cymdeithasol os gallwch chi, a chael sgwrs â bydwraig. Serch hynny, fe allai cael profiad arsylwi fod yn anodd. Felly gofalwch eich bod chi’n gwneud gwaith ymchwil i ddeall beth yw union swydd bydwragedd ac i feithrin dealltwriaeth o’r materion iechyd ehangach a allai effeithio ar ofal mamolaeth. Bydd hyn yn eich helpu i fod yn siŵr bod gyrfa mewn bydwreigiaeth yn addas i chi. Bydd rhai pobl yn chwilio am waith fel gweithwyr cymorth gofal iechyd, a gall hyn fod yn ddefnyddiol er mwyn rhoi cyfle i chi weithio ochr yn ochr â bydwragedd, menywod a babanod. Bydd hyn hefyd yn rhoi darlun i chi o sut beth yw swydd bydwraig.

Pan fyddwch chi wedi cael yr holl ddogfennau i wneud cais, mae’n bwysig eich bod chi’n gwneud pob ymdrech i **gwblhau’r ffurflen yn gywir ac yn onest**. Gwnewch gopi ohoni a chreu drafft cyntaf. Syniad da yw gofyn i rywun arall edrych ar y drafft i chwilio am gamgymeriadau teipio ac ati. Pan fyddwch chi’n fodlon, llenwch y ffurflen derfynol. Cadwch gopi o’ch cais, oherwydd mae’n debygol y byddan nhw’n gofyn cwestiynau am eich datganiad yn ystod eich cyfweliad.

**Bydd angen i chi baratoi datganiad personol cryf** i roi tystiolaeth eich bod chi’n deall gwaith bydwraig, ac i ddangos beth rydych chi wedi’i wneud i wybod mai bydwreigiaeth yw’r yrfa iawn i chi. Fydd dim disgwyl i chi fod yn arbenigwr ar beth mae bydwragedd yn ei wneud, ond byddan nhw’n disgwyl i chi fod wedi paratoi rhywfaint. Meddyliwch am y gwerthoedd neu’r rhinweddau sy’n gwneud bydwragedd da, a pha dystiolaeth sydd gennych chi o hyn. Peidiwch â dim ond rhestru’r holl bethau rydych chi wedi’u gwneud. Yn hytrach, soniwch am y profiadau sy’n dangos beth rydych chi wedi’i ddysgu a sut byddai modd trosglwyddo’r profiad hwnnw i fydwreigiaeth.

Os bydd eich datganiad yn llwyddiannus, byddwch chi’n cael cyfweliad, felly cofiwch sicrhau bod eich personoliaeth yn amlwg yn y datganiad, a bod modd i chi roi tystiolaeth i gyd-fynd â’r pethau rydych chi’n eu dweud ynddo.

## Sut i baratoi at fy nghyfweliad?

## Os cewch chi wahoddiad i gyfweliad, treuliwch amser yn paratoi.

Bydd cyfweliadau’n amrywio, ond yn aml byddan nhw’n cynnwys rhywfaint o drafodaethau cyffredinol, gwaith grŵp a chwarae rôl. Efallai y bydd rhai prifysgolion yn gofyn i chi gwblhau traethawd wedi’i amseru ar bwnc y byddan nhw wedi rhoi gwybodaeth i chi amdano cyn y cyfweliad. Efallai hefyd y bydd gofyn i chi gwblhau prawf mathemateg byr i ddangos eich bod chi’n deall mathemateg sylfaenol.

Yn ogystal â’r uchod, efallai y cewch chi gyfweliad wyneb yn wyneb. Gan amlaf, bydd o leiaf ddau o bobl yn eich cyfweld. Mae’n debygol mai darlithydd prifysgol a bydwraig sy’n ymarfer ar hyn o bryd fydd y rhain, ynghyd â defnyddiwr gwasanaeth mamolaeth, o bosibl.

**I roi’r cyfle gorau i chi’ch hun yn ystod y cyfweliad hwn**, dylech baratoi ymlaen llaw fel eich bod yn gyfarwydd â’r newyddion diweddaraf am fydwreigiaeth. Dylech fod yn

ymwybodol hefyd o faterion sy’n ymwneud â babanod, a phynciau eraill sy’n gysylltiedig â gofal iechyd. Bydd yr holl waith paratoi hwn yn sicrhau bod gennych chi ddealltwriaeth dda o waith bydwragedd a pha gymorth y gallan nhw’i roi i rieni newydd. Yna, os gofynnir i chi pam eich bod chi eisiau bod yn fydwraig, mae’n syniad da osgoi ystrydebau fel ‘Rydw i’n hoffi babis’ neu ‘Oherwydd fe wyliais i raglen am fydwragedd ar y teledu’. Efallai fod hynny wedi tanio’ch diddordeb, ond mae’n well sôn am beth rydych chi wedi’i ddarganfod am realiti’r proffesiwn. Mae’n bwysig eich bod chi’n ymwybodol bod rôl a chyfrifoldebau bydwragedd cymwys yn wahanol i rai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, fel nyrsys.

Mae’r cyrsiau’n rhai trwm, gan y byddwch chi’n astudio’n academaidd ond ar yr un pryd yn gweithio shifftiau clinigol. Mae angen i chi felly ddangos eich bod chi’n deall gofynion y cwrs, eich bod chi’n gallu trefnu’ch amser yn effeithiol, a bod gennych chi gefnogaeth teulu a ffrindiau.

---